**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# CYFARFOD BLYNYDDOL

**15 Mehefin 2015**

**CYFANSODDIAD ATAGC**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Aelodau fabwysiadu cyfansoddiad ar gyfer yr Awdurdod.

## Cefndir

2 Rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdod tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol. Mae gan yr Awdurdod nifer o ddogfennau llywodraethu mewnol, gan gynnwys rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol, cod ymddygiad a phrotocol aelodau/ swyddogion.

3 Ar ôl cynnal archwiliad o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, argymhellodd adran Archwilio Mewnol fod yr Awdurdod yn 'sefydlu cyfansoddiad ar ffurf un ddogfen i reoleiddio ymddygiad unigolion a grwpiau drwy godau ymddygiad, protocolau a rheolau sefydlog'.

## Gwybodaeth

4 Diben y cyfansoddiad felly yw dwyn ynghyd yr holl ddogfennau llywodraethu cyfredol mewn un ddogfen, a nodi'n eglur sut y mae'r Awdurdod yn gweithredu a sut y mae'n gwneud ei benderfyniadau. Nid yw'r ddogfen yn newid dim ar y rheolau cyfredol, dim ond eu dwyn ynghyd yn yr un lle.

5 Caiff y ddogfen ei diwygio wrth i drefniadau newid, gan ymgorffori unrhyw ddogfennau llywodraethu newydd a fabwysiedir. Er enghraifft, nid oes gan yr Awdurdod god ymddygiad ar gyfer swyddogion ar hyn o bryd, ond bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried drafft yn y misoedd nesaf. Os cytunir arno, a'r Awdurdod yn ei fabwysiadu, yna ymgorfforir y cod yn y Cyfansoddiad.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r cyfansoddiad sydd yn atodiad 1.

# Cyfansoddiad
# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**CYNNWYS**


**Rhan 1 – Crynodeb ac Esboniad**

**Crynodeb ac Esboniad**
**Sut mae'r Awdurdod yn gweithredu**

**Rhan 2 – Erthyglau'r Cyfansoddiad**

Erthygl 1 - Y Cyfansoddiad
Erthygl 2 – Aelodau'r Awdurdod Tân
Erthygl 3 – Aelodau'r cyhoedd a'r Awdurdod
Erthygl 4 – Yr Awdurdod Llawn
Erthygl 5 – Cadeirio'r Awdurdod
Erthygl 6 – Pwyllgorau
Erthygl 7 – Swyddogion
Erthygl 8 – Gwneud penderfyniadau
Erthygl 9 – Materion Ariannol, Cytundebol a Chyfreithiol
Erthygl 10 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad
Erthygl 11 – Atal dros dro, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad

**Rhan 3 – Cyfrifoldebau am Swyddogaethau**

- **Crynodeb o Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau**
- **Diagram o drefniadau rheolaeth wleidyddol yr Awdurdod**
- **Cylch gorchwyl manwl a phrotocolau gweithdrefnol pob pwyllgor**
- **Cynllun Dirprwyo'r Prif Swyddog Tân**

**Rhan 4 – Rheolau a Gweithdrefn**

- **Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes**
- **Rheoliadau Ariannol**
- **Rheolau Sefydlog Contractau**
- **Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth**
- **Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion**

**Rhan 5 – Codau a Phrotocolau**

- **Cod Ymddygiad yr Aelodau**
- **Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau a Gweithwyr**
- **Gweithdrefn Datrys yn Lleol mewn perthynas â Chwynion am Aelodau**
- **Rhoddion a Lletygarwch – Protocol Lleol**
- **Protocol Cyfryngau Cymdeithasu**
- **Prosesu ar gyfer Rheoli Cwynion am Safonau**

**Rhan 6 – Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau**

- **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau**

**Rhan 1 - Crynodeb ac Esboniad**

Sefydlwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Fel un o dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw:

- cyflawni holl ddyletswydd a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn benodol Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Deddf Rhagofalon Tân 1971, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006 a Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995;
- cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol;
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Mae ymrwymiad statudol ar yr Awdurdod i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymdrin yn effeithiol â galwadau am gymorth os bydd tân ac argyfyngau eraill.

**Y CYFANSODDIAD**

Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar gyfansoddiad newydd sy'n nodi sut mae'r Awdurdod yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau ac sy'n nodi'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i gymunedau lleol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol dan y gyfraith, ac mae eraill yn fater o ddewis i'r Awdurdod.

Mae'r Cyfansoddiad wedi ei rannu'n 12 erthygl sy'n nodi'r rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes yr Awdurdod. Darperir gweithdrefnau manylach a chodau ymarfer mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

**BETH SYDD YN Y CYFANSODDIAD?**

Mae Erthygl 1 o'r Cyfansoddiad ym ymrwymo'r Awdurdod i ddarparu arweinyddiaeth glir mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Gogledd Cymru, gan annog y cyhoedd i gyfranogi, a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw.

Mae Erthyglau 2-12 yn esbonio hawliau aelodau'r cyhoedd a sut y mae rhannau allweddol o'r Awdurdod yn gweithredu, sef:

Erthygl 2 – Aelodau'r Awdurdod Tân
Erthygl 3 – Aelodau'r cyhoedd a'r Awdurdod
Erthygl 4 – Yr Awdurdod Llawn
Erthygl 5 – Cadeirio'r Awdurdod
Erthygl 6 – Pwyllgorau
Erthygl 7 – Swyddogion
Erthygl 8 – Gwneud Penderfyniadau
Erthygl 9 – Materion Ariannol, Cytundebol a Chyfreithiol
Erthygl 10 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad
Erthygl 11 – Atal dros dro, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad

## SUT MAE'R AWDURDOD YN GWEITHREDU

### Aelodau'r Awdurdod Tân

Mae'r Awdurdod yn cynnwys o 28 gynghorwyr o'r chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu ar sail poblogaeth.

Caiff Aelodau'r Awdurdod eu penodi am gyfnodau y bydd yr awdurdodau cyfansoddol yn penderfynu arnynt, ac felly gellir eu newid yn ôl eu dewis hwy. Gall Aelodau ymddiswyddo o'r Awdurdod neu byddant yn peidio â bod yn aelodau o'r Awdurdod os byddant yn peidio â bod yn aelodau o'r awdurdod cyfansoddol am unrhyw reswm. Bydd cyfnod y swydd hefyd yn cael ei reoleiddio gan ddarpariaethau Cynllun Cyfuno 1995.

Fel Aelodau o'r Awdurdod Tân, nid yw cynghorwyr yn cynrychioli wardiau/rhanbarthau unigol y cawsant eu hethol iddynt, na hyd yn oed yr awdurdodau cyfansoddol y cawsant eu penodi ganddynt. Yn hytrach, mae dyletswydd arnynt i gynrychioli buddiannau'r gymuned yng Ngogledd Cymru ar ei hyd.

Mae enwau a manylion cyswllt holl aelodau'r Awdurdod Tân ar gael ar ein gwefan yn www.gwastan-gogcymru.org.uk

### Cod Ymddygiad

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Tân, gyda chefnogaeth y Swyddog Monitro, i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan yr Aelodau, ac mae wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i hwyluso hyn.

### Yr Awdurdod Llawn

Mae'r holl Aelodau'n cyfarfod fel Awdurdod. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd oni bai fod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei thrafod. Yma, bydd yr Aelodau'n penderfynu ar bolisïau cyffredinol yr Awdurdod ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Awdurdod yn dirprwyo i'r Panel Gweithredol a/neu'r Pwyllgor Archwilio i drafod adroddiadau'n fwy manwl ac i wneud argymhellion i'r Awdurdod llawn.

Penodir Aelod yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin bob blwyddyn i fod yn Gadeirydd yr Awdurdod. Bydd ef neu hi yn llywyddu cyfarfodydd yr Awdurdod, a bydd yn gyfrifol am ddehongli rheolau gweithdrefn, gyda'r pŵer i reoli a rheoleiddio llwybr y drafodaeth. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r Cadeirydd weithredu'n ddiduedd ond mae gan y Cadeirydd bleidlais ar benderfyniadau a chaiff ail bleidlais (neu bleidlais fwrw) pan fo angen.

### Sut y gwneir penderfyniadau

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi, ac yn cadw'n gyfoes, gofnod o ba ran o'r sefydliad, neu ba unigolyn, sy'n gyfrifol am fathau penodol o benderfyniad neu benderfyniadau sy'n ymwneud â rhannau neu swyddogaethau penodol.

**Trosolwg a Chraffu**

Yn wahanol i lawer o Awdurdodau, nid oes gan Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar wahân gan yr Awdurdod Tân, ond mae gwaith y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau, oherwydd eu natur, yn cynnwys lefel uchel o graffu ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth a'i bolisïau a'i weithdrefnau.

Pan fo angen, gellir defnyddio Gweithgorau o Aelodau i gefnogi gwaith yr Awdurdod. Dyma weithgorau bychain o Aelodau a sefydlir yn ôl yr angen i edrych ar faterion penodol yn fwy manwl ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod. Bydd aelodaeth a methodoleg y Gweithgorau yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion yr amgylchiadau penodol.

**Staff yr Awdurdod**

Mae gan yr Awdurdod bobl yn gweithio iddo (sef 'swyddogion') i roi cyngor, i weithredu penderfyniadau ac i reoli'r gwaith o ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Y Prif Swyddog Tân yw'r prif ymgynghorydd proffesiynol ar gyfer yr Awdurdod. Mae dyletswydd penodol ar rai swyddogion i sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio ei adnoddau'n ddoeth. Mae yna gynllun dirprwyo er mwyn i'r Prif Swyddog Tân allu gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun dirprwyo hwnnw. Mae cod ymarfer yn llywodraethu'r gyd-berthynas rhwng y swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod.

**Y Cyhoedd**

Mae gan y cyhoedd nifer o hawliau wrth iddynt ymwneud â'r Awdurdod. Nodir y rhain yn fwy manwl yn Erthygl 3. Hawliau cyfreithiol yw rhai ohonynt, ac mae eraill yn dibynnu ar brosesau'r Awdurdod ei hun. Mae'r Awdurdod yn croesawu cyfranogiad aelodau'r cyhoedd i'w waith.

**Rhan 2 – Erthyglau'r Cyfansoddiad**

**1. Y Cyfansoddiad**

**1.1. Pwerau'r Awdurdod**

Bydd yr Awdurdod yn arfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.

**1.2. Y Cyfansoddiad**

Cyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ('yr Awdurdod') yw'r cyfansoddiad hwn a'i holl atodiadau.

**1.3. Diben y Cyfansoddiad**

Diben y Cyfansoddiad yw:

(i) galluogi'r Awdurdod i ddarparu arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth ag aelodau'r cyhoedd, busnesau a sefydliadau eraill;
(ii) cefnogi ac annog aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod;
(iii) darparu fframwaith lle gall yr Aelodau gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn effeithiol;
(iv) ei gwneud yn bosibl i wneud penderfyniadau mewn modd effeithlon ac effeithiol;
(v) creu modd pwerus ac effeithiol o ddal penderfynwyr yn atebol i'r cyhoedd;
(vi) sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn amlwg i bobl leol, a'u bod yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau; a
(vii) darparu ar gyfer cyflawni gwasanaethau tân ac achub yn effeithiol yng Ngogledd Cymru.

**1.4. Dehongli ac Adolygu'r Cyfansoddiad**

Pan fo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Awdurdod ddewis rhwng gwahanol lwybrau gweithredu, bydd yr Awdurdod yn wastad yn dewis yr opsiwn sydd, yn ei tyb nhw, agosaf at y dibenion a nodir uchod.

Bydd yr Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso gweithrediad y Cyfansoddiad, fel y nodir yn Erthygl 11.

**2. Aelodau'r Awdurdod**

**2.1. Cyfansoddiad a chymhwyster**

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Sir Ynys Môn (3). Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol eu pennu ar sail poblogaeth.

### 2.2. Tymor Swyddi Aelodau

Mae'r Cynghorau Cyfansoddol yn penodi Aelodau i'r Awdurdod am ba dymor bynnag y mae'r Cynghorau'n ei ddewis. Daw'r Aelodau i'w swyddi ar y diwrnod pryd y cânt eu penodi. Gallant ymddiswyddo o'r Awdurdod unrhyw bryd drwy hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig. Byddant yn peidio â bod yn Aelodau o'r Awdurdod Tân os byddant yn peidio â bod yn aelodau o'r Cyngor y cawsant eu penodi iddo.

### 2.3. Rolau a swyddogaethau'r holl Aelodau

(a) **Prif rolau**

Bydd pob Aelod yn:

- (i) cymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau, a chyfrannu at lywodraethiad da yr Awdurdod;
- (ii) cyfrifol am lunio'r polisïau yn y pen draw, a chyflawni nifer o swyddogaethau strategol ac yn ymwneud â rheolaeth gorfforaethol;
- (iii) cynrychioli eu cymunedau a dod â'u safbwyntiau i broses benderfynu'r Awdurdod, h.y. yn eiriol dros eu cymunedau;
- (iv) mantoli gwahanol fuddiannau ledled Gogledd Cymru a gweithredu er lles Gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd;
- (v) ymateb i ymholiadau a sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd, a hynny'n deg ac yn ddiduedd;
- (vi) mynd ati i annog cyfranogiad gan gymunedau a chael y cyhoedd i ymwneud â'r gwaith o wneud penderfyniadau;
- (vii) bod ar gael i gynrychioli'r Awdurdod ar gyrff eraill; a
- (viii) cadw'r safonau uchaf o ymddygiad a moeseg.

(b) **Hawliau a dyletswyddau**

(i) Bydd gan yr Aelodau hawliau i gael mynediad at ddogfennau, gwybodaeth, tir ac adeiladau'r Awdurdod fel sydd angen ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith.

(ii) Ni fydd yr Aelodau'n datgelu'n gyhoeddus unrhyw wybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig heb gydsyniad yr Awdurdod nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i neb heblaw Aelod neu swyddog sydd â hawl i'w gwybod.

(iii) I'r dibenion hyn, mae gwybodaeth "gyfrinachol" ac "eithriedig" yn cael ei diffinio yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

### 2.4. Ymddygiad

Bydd yr Aelodau bob amser yn cadw at God Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion, fel y nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

### 2.5. Cydnabyddiaeth Ariannol

Bydd gan yr Aelodau hawl i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau yn unol â Chynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau a nodir yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 3. Aelodau'r cyhoedd a'r Awdurdod

### 3.1. Hawliau'r cyhoedd

Mae aelodau'r cyhoedd yn meddu ar yr hawliau canlynol. Mae eu hawliau i wybodaeth ac i gymryd rhan yn cael eu hesbonio'n fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn:

(a) **Gwybodaeth.** Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl i:

- (i) mynychu cyfarfodydd o'r Awdurdod a'i bwyllgorau oni bai pan fo gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a'r cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat;
- (ii) gweld adroddiadau ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod a'i bwyllgorau;
- (iii) archwilio a chael copi o God Ymddygiad yr Awdurdod ac edrych ar y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau; a
- (iv) archwilio cyfrifon yr Awdurdod a gwneud eu barn yn wybyddus i'r archwilydd allanol.

(b) **Cwynion.** Mae aelodau'r cyhoedd hawl i gwyno i:

- (i) yr Awdurdod ei hun dan ei gynllun gwynion;
- (ii) yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ynglŷn â chamweinyddu, ar ôl defnyddio cynllun cwynion yr Awdurdod ei hun yn gyntaf; a
- (iii) y Swyddog Monitro ynglŷn â thorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

### 3.2. Cyfrifoldebau

Rhaid i aelodau'r cyhoedd beidio â bod yn dreisgar, difrïol na bygythiol tuag at yr Aelodau na'r Swyddogion, a rhaid iddynt beidio â niweidio'n fwriadol bethau sy'n eiddo i'r Awdurdod, ei Aelodau na'r Swyddogion.

## 4. Yr Awdurdod Llawn

### 4.1. Ystyron

(a) **Fframwaith Polisïau.** Mae'r fframwaith polisïau yn golygu'r cynllun a'r strategaethau a ganlyn:-

- Y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella
- Y Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Y Cynllun Rheoli Asedau.

(b) **Y Gyllideb.** Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod cyfyngiadau ar drosglwyddiadau. Erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn disgwylir i'r Awdurdod roi gwybod i'w gynghorau cyfansoddol am ei dreuliau net amcangyfrifiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. I gynorthwyo gyda hyn, mae'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, yn gosod cyllideb y Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Erbyn 15 Chwefror bob blwyddyn, mae angen i'r Awdurdod roi gwybod i'w awdurdodau cyfansoddol beth yw lefel y cyfraniadau y bydd yn gofyn iddynt eu cyfrannu i Gronfa'r Gwasanaeth Tân Cyfunol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol.

**4.2. Swyddogaethau'r Awdurdod llawn**

Yr Awdurdod yn unig a fydd yn cyflawni'r swyddogaethau a ganlyn (oni phenderfynwyd yn wahanol):

(i) mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;
(ii) cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisïau a'r gyllideb;
(iii) cytuno ar gylch gwaith pwyllgorau, a/neu ei ddiwygio, gan benderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt;
(iv) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai fod y penodiad wedi cael ei ddirprwyo gan yr Awdurdod;
(v) mabwysiadu cynllun lwfansau;
(vi) cadarnhau penodiad y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro;
(vii) pob mater arall y mae'n rhaid ei gadw i'r Awdurdod yn ôl y gyfraith.

**4.3. Cyfarfodydd yr Awdurdod**

Mae tri math o gyfarfod gan yr Awdurdod:

(a) cyfarfod blynyddol;
(b) cyfarfodydd cyffredin; ac
(c) cyfarfodydd arbennig

a chânt eu cynnal yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

**5. Cadeirio'r Awdurdod**

**5.1. Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**

Bydd y Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yn cael eu hethol gan yr Awdurdod bob blwyddyn, a byddant yn dal eu swyddi hyd oni:

(i) byddant yn ymddiswyddo;
(ii) ni fyddant mwyach yn Aelodau o'r Awdurdod;
(iii) byddant yn cael eu symud o'u swyddi drwy benderfyniad gan yr Awdurdod; neu
(iv) bydd eu holynwyr yn cychwyn ar eu swyddi.

**5.2. Rôl a Swyddogaeth y Cadeirydd**

Bydd y cyfrifoldebau a ganlyn ar Gadeirydd yr Awdurdod, a'r dirprwy gadeirydd yn ei absenoldeb:

(i) darparu arweiniad gwleidyddol i'r Awdurdod;
(ii) cadeirio cyfarfodydd yr Awdurdod a sicrhau ei effeithiolrwydd cyffredinol;
(iii) darparu arweiniad effeithiol wrth ddatblygu polisïau a strategaethau a gymeradwyir gan yr Awdurdod;
(iv) gweithredu fel prif lefarydd aelodau'r Awdurdod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
(v) ceisio sicrhau bod cydberthnasoedd gwaith da yn cael eu sefydlu gyda chyrff allanol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a rhwydweithiau sy'n berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod yn effeithlon;
(vi) arwain y gwaith o ddatblygu cydberthnasedd gwaith da rhwng arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir gan yr Awdurdod;
(vii) hyrwyddo cydberthnasoedd gwaith da rhwng aelodau a swyddogion yr Awdurdod fel y bo busnes yr Awdurdod yn cael ei gynnal yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol;
(viii) mynychu a chynrychioli'r Awdurdod ar y Pwyllgor Materion Cenedlaethol.

## 6. Pwyllgorau

Bydd yr Awdurdod yn penodi'r pwyllgorau a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn a bydd gan bob un ohonynt ei gylch gorchwyl ei hun a'i swyddogaethau a ddisgrifir ynddo. Caiff yr Awdurdod benodi pwyllgorau ychwanegol neu newid unrhyw rai o'r manylion a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r cyfansoddiad hwn, fel y caiff yr Awdurdod benderfynu o bryd i'w gilydd.

## 7. Swyddogion

### 7.1. Strwythur rheolwyr

(a) Bydd yr Awdurdod yn cyflogi pobl (a enwir yn swyddogion) fel y mae'n ystyried bod angen hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Gall Swyddogion gael eu hawdurdodi naill ai gan yr Awdurdod neu Bwyllgor i wneud penderfyniadau. Mae hyd a lled y pwerau dirprwyedig hynny wedi eu nodi yn y Cynllun Dirprwyo cyffredinol yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.

(b) Er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod benodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, mae'r Awdurdod wedi dewis gwneud hynny fel mater o arfer dda. Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fydd yn penderfynu ar y strwythur adrannol cyffredinol a lleoli staff.

(c) **Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a'r Trysorydd**.

Bydd yr Awdurdod yn dynodi'r swyddi canlynol fel hyn:

| SWYDD | DYNODIAD |
|---|---|
| Prif Swyddog Tân/Prif Weithredwr | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig |
| Swyddog Adran 151/Trysorydd | Trysorydd |
| Clerc | Swyddog Monitro |

### 7.2. Swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig

(a) **Cyflawni swyddogaethau gan yr Awdurdod**

Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn adrodd i'r Awdurdod ynghylch y modd y cyd-gysylltir y gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

(b) **Cyfyngiadau ar swyddogaethau**

Ni chaiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyfloged fod yn Swyddog Monitro, ond caiff fod yn Drysorydd os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

### 7.3. Swyddogaethau'r Swyddog Monitro

(a) **Cynnal ac adolygu'r Cyfansoddiad**

Bydd y Swyddog Monitro yn cadw fersiwn gyfoes o'r Cyfansoddiad, a bydd yn sicrhau ei fod ar gael yn eang ar gyfer ymgynghori â'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd. Bydd ef/hi yn cadw'r cyfansoddiad dan adolygiad yn unol ag Erthygl 11 isod.

(b) **Sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau**

Ar ôl ymgynghori â Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Trysorydd, bydd y Swyddog Monitro yn dweud wrth yr Awdurdod os yw'n ystyried y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at anghyfreithlondeb neu os yw unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael yr effaith o rwystro'r cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd oni fydd yr wybodaeth wedi cael ei hystyried.

(c) **Safonau Moesegol**

Bydd y Swyddog Monitro yn cyfrannu at hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy:

(i) darparu hyfforddiant i'r Aelodau

(ii) cael cwynion o honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad, gweithredu arnynt, a lle bo'n briodol ymchwilio iddynt, a hynny yn unol â'r Trefniadau ar gyfer Ymchwilio a Phenderfynu mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad; a

(iii) darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau.

(d) **Y swyddog priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth**

Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ac adroddiadau perthnasol gan swyddogion a phapurau cefndirol, ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd.

(e) **Darparu cyngor**

Bydd y Swyddog Monitro yn darparu cyngor ynghylch pwerau'r Awdurdod, camweinyddu, cywirdeb ariannol, y Codau Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a'r protocolau i'r holl Aelodau, a bydd yn cynghori ac yn cefnogi'r Aelodau a'r swyddogion yn eu swyddi.

(f) **Cyfyngiadau ar swyddi**

Ni chaiff y Trysorydd na Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro.

**7.4. Swyddogaethau'r Trysorydd**

(a) **Sicrhau cyfreithlondeb a darbodaeth ariannol wrth wneud penderfyniadau**

Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Trysorydd yn adrodd i'r Awdurdod ac archwilydd allanol yr Awdurdod os yw'n ystyried y bydd unrhyw gynnig, penderfyniad neu gamau gweithredu yn golygu gwariant anghyfreithlon, neu ei fod yn anghyfreithlon ac yn debygol o golled neu ddiffyg neu os yw'r Awdurdod ar fin cynnwys eitem ar y cyfrifon yn anghyfreithlon.

(b) **Gweinyddu materion ariannol**

Bydd y Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod.

(c) **Darparu cyngor**

Bydd y Trysorydd yn darparu cyngor i bawb ynghylch anghywirdeb ariannol, uniondeb a fframwaith y gyllideb a pholisïau, a bydd yn cefnogi ac yn cynghori'r cynghorwyr a'r swyddogion yn eu swyddi.

### 7.5. Ymddygiad

(a) Bydd y Swyddogion yn cydymffurfio â'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Swyddogion ac Aelodau, a nodir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

(b) Bydd y Swyddog Monitro yn cofnodi, mewn llyfr i'w gadw i'r diben, fanylion unrhyw hysbysiad a roddir gan Swyddog o'r Awdurdod dan Adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ynghylch buddiant ariannol mewn contract, neu gontract arfaethedig, a bydd y llyfr ar gael yn ystod oriau swyddfa i'w archwilio gan unrhyw Aelod o'r Awdurdod.

### 7.6. Cyflogi

Bydd y gwaith o recriwtio, dethol a diswyddo swyddogion yn cydymffurfio â'r Rheolau Cyflogi Swyddogion a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 8. Gwneud Penderfyniadau

### 8.1. Cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi, ac yn cadw'n gyfoes, gofnod o ba ran o'r Awdurdod neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb am fathau penodol o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â rhannau penodol neu swyddogaethau.

### 8.2. Egwyddorion gwneud penderfyniadau

Bydd pob penderfyniad gan yr Awdurdod yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:
(a) cymesuredd (h.y. rhaid i'r weithred fod yn gymesur â'r canlyniad a ddymunir);
(b) ymgynghoriad dyledus a chymryd cyngor proffesiynol gan swyddogion;
(c) parch at hawliau dynol;
(d) rhagdybiaeth o blaid bod yn agored; a
(e) eglurder y nodau a'r canlyniadau a ddymunir.

### 8.3. Gwneud penderfyniadau gan yr Awdurdod llawn

Yn ddarostyngedig i Erthygl 8.5, bydd cyfarfod yr Awdurdod yn dilyn y Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes, a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, wrth ystyried unrhyw fater.

### 8.4. Gwneud penderfyniadau gan bwyllgorau ac is-bwyllgorau

Yn ddarostyngedig i Erthygl 8.5, bydd y pwyllgorau, is-bwyllgorau, gweithgorau a phanelau yn dilyn:

(a) y rhannau o'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes, a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn fel sy'n berthnasol iddynt; a

(b) gweithdrefnau eraill a nodir yn Rhan 3 o'r cyfansoddiad hwn (Cyfrifoldeb am Swyddogaethau) fel y pennir mewn perthynas â'r pwyllgor, is-bwyllgor neu'r panel hwnnw

### 8.5. Penderfyniadau Brys

(1) Pan fo'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn penderfynu bod unrhyw fater yn un brys ac y byddai'n anymarferol galw cyfarfod o'r Awdurdod, bydd yr awdurdod llwyr i benderfynu ynghylch y mater yn cael ei roi i'r Prif Swyddog Tân/Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Clerc a/neu'r Trysorydd.

(2) Ni wneir unrhyw benderfyniad ac ni chyhoeddir unrhyw gyfarwyddiadau o dan Erthygl 9.6 sy'n mynd yn groes i benderfyniad a fynegwyd gan yr Awdurdod neu arfer sefydledig.

(3) Bydd adroddiad ynghylch yr holl benderfyniadau a wneir dan Erthygl 9.6 yn cael ei wneud i'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod neu'r pwyllgor perthnasol (pa un bynnag sy'n berthnasol).

## 9. Materion Ariannol, Cytundebol a Chyfreithiol

### 9.1. Rheolaeth ariannol

Rheolir materion ariannol yr Awdurdod yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

### 9.2. Contractau

Bydd pob contract a wneir gan yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog Contractau a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

### 9.3. Achosion cyfreithiol

Mae'r Prif Swyddog Tân, ar ôl ymgynghori â'r Clerc/Swyddog Monitro a'r Trysorydd/Swyddog Adran 151, wedi ei awdurdodi i gychwyn, amddiffyn neu gyfranogi mewn unrhyw achos llys, pan fo angen, ac i roi effaith i benderfyniadau'r Awdurdod, neu mewn unrhyw achos pryd y mae'r Prif Swyddog Tân, ar ôl ymgynghori â'r Clerc/Swyddog Monitro a'r Trysorydd/Swyddog Adran 151, yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu lles yr Awdurdod.

### 9.4. Tystio i Ddogfennau

Yn ogystal ag unrhyw berson arall a awdurdodir trwy benderfyniad yr Awdurdod i'r diben hwn, y swyddog priodol i ddibenion adran 234, Deddf 1972 (dilysu dogfennau) fydd y Clerc i'r Awdurdod neu unrhyw swyddog a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog hwnnw.

### 9.5. Sêl Gyffredin yr Awdurdod

Caiff Sêl Gyffredin yr Awdurdod ei chadw mewn lle diogel yng ngofal y Prif Swyddog Tân. Bydd penderfyniad gan yr Awdurdod, neu unrhyw ran ohono, yn ddigon o awdurdod ar gyfer selio unrhyw ddogfen sydd ei angen i roi effaith i benderfyniad. Bydd gosod y sêl gyffredin yn cael ei dystio gan y swyddog priodol neu gan ddirprwy wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan y swyddog priodol.

### 9.6. Archwilio tir, safleoedd ayyb.

Oni bai fod yr Awdurdod yn awdurdodi hynny'n benodol, ni chaiff unrhyw Aelod o'r Awdurdod gyhoeddi unrhyw orchymyn ynghylch unrhyw waith a wneir gan yr Awdurdod neu ar ei ran, na honni, yn rhinwedd aelodaeth o'r Awdurdod, unrhyw hawl i archwilio neu fynd ar unrhyw diroedd neu safleoedd y mae gan yr Awdurdod bŵer neu ddyletswydd i'w archwilio neu fynd iddynt, ond cyhyd â bod cytundeb yn cael ei wneud o flaen llaw gyda'r Prif Swyddog Tân bydd gan Aelod, i'r graddau y bo modd o fewn y gyfraith, hawl i archwilio tiroedd a safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod.

**9.7. Hawliau’r Aelodau i Archwilio Dogfennau**

(1) Rhaid i bob agenda, papur a chofnodion sy’n ymwneud â busnes yng nghyfarfodydd yr Awdurdod fod yn agored i’w archwilio gan unrhyw Aelod, ac eithrio pan fo’r busnes yn ymwneud â mater lled-gyfreithiol neu wybodaeth bersonol sy’n ddarostyngedig i Ddeddf Diogelu Data 1998, neu’n ymwneud ag achos cyfreithiol gan yr Awdurdod neu yn ei erbyn.

(2) Bydd hawl gan Aelod o’r Awdurdod i archwilio dogfennau eraill yr Awdurdod fel sy’n angenrheidiol yn rhesymol er mwyn cyflawni swyddogaethau’r Aelod fel aelod o’r Awdurdod. Rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig i’r Prif Swyddog Tân i archwilio dogfen o’r fath, a bydd yntau, ar ôl ymgynghori â’r Cadeirydd a/neu’r Clerc pan fo’n briodol, yn cynhyrchu’r ddogfen i’w harchwilio, ar yr amod nad yw Aelod, heblaw dan rai amgylchiadau (e.e. materion cyfrinachedd), ond yn cael caniatâd i archwilio gyda’r ddealltwriaeth eglur na ddylid trosglwyddo’r cynnwys i unrhyw barti arall, a chan nodi bod Aelodau’r Awdurdod yn rhwym wrth Ddeddf Diogelu Data 1998.

**10. Adolygu a Diwygio’r Cyfansoddiad**

**10.1. Dyletswydd i fonitro ac adolygu’r cyfansoddiad**

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael effaith lwyr.

**10.2. Protocol ar gyfer monitro ac adolygu’r cyfansoddiad gan y Swyddog Monitro**

Un o rolau allweddol y Swyddog Monitro yw bod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau’r Cyfansoddiad a fabwysiedir gan yr Awdurdod, a gwneud argymhellion ar ffyrdd o’i ddiwygio er mwyn cyflawni’n well y dibenion a nodir yn Erthygl 1. Wrth gyflawni’r gorchwyl hwn, caiff y Swyddog Monitro:

(i) arsylwi cyfarfodydd yr Awdurdod Tân;
(ii) wneud trywydd archwilio o sampl o benderfyniadau;
(iii) cofnodi a dadansoddi materion a godir gyda ef/hi gan Aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; a
(iv) cymharu arferion yn yr Awdurdod hwn gyda rhai mewn awdurdodau cymaradwy eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arferion gorau.

**10.3. Newidiadau i’r Cyfansoddiad**

Ni chaiff newidiadau i’r cyfansoddiad eu cymeradwyo ond gan yr Awdurdod llawn ar ôl ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro neu un o bwyllgorau’r Awdurdod.

**11. Atal dros dro, Dehongli a Chyhoeddi’r Cyfansoddiad**

**11.1. Atal y Cyfansoddiad, dros dro**

(a) **Cyfyngiad ar atal dros dro**

Ni ellir atal Erthyglau’r Cyfansoddiad hwn dros dro. Gellir atal y Rheolau a bennir isod dros dro gan yr Awdurdod llawn, i’r graddau y caniateir hynny o fewn y Rheolau a’r gyfraith.

(b) **Gweithdrefn ar gyfer atal dros dro**

Ni fydd cynnig i atal unrhyw reolau dros dro yn cael ei roi gerbron heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm yr Aelodau yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad i'w sicrhau, gan ystyried dibenion y Cyfansoddiad a nodir yn Erthygl 1.

(c) **Rheolau sy'n gallu atal dros dro**

Gellir atal y Rheolau hyn dros dro yn unol ag Erthygl 12.1:

- Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes
- Rheoliadau Ariannol
- Rheolau Sefydlog Contractau

**11.2. Dehongli**

Ni chaniateir herio, yn unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod, ddyfarniad y Cadeirydd ynghylch ffurfio neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn na thrafodion yr Awdurdod. Bydd dehongliad o'r fath yn talu sylw i ddibenion y Cyfansoddiad hwn, sydd yn Erthygl 1.

**11.3. Cyhoeddi**

Bydd y Swyddog Monitro yn:
(a) darparu manylion y Cyfansoddiad i bob Aelod o'r Awdurdod pan fydd yn cael eu penodi gyntaf.
(b) sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio ym Mhencadlys yr Awdurdod ac ar wefan yr Awdurdod.